Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Cynllunio a Seilwaith

Gorffennaf 2025

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Cynllunio a Seilwaith[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei Ddarlleniad Cyntaf ar 11 Mawrth 2025. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

**2.** Yn Nodiadau Esboniadol y Bil fel y'i cyflwynwyd, nodir fel a ganlyn:

> *"The Planning and Infrastructure Bill ("the Bill") will speed up and streamline the delivery of new homes and critical infrastructure, supporting delivery of the government's Plan for Change milestones of building 1.5 million safe and decent homes in England and fast-tracking 150 planning decisions on major economic infrastructure projects by the end of this Parliament. It will also support delivery of the government's Clean Power 2030 target by ensuring that clean energy projects are built as quickly as possible."*[2]

**3.** Mae enw hir y Bil yn datgan ei ddiben fel a ganlyn:

> *"Make provision about infrastructure; to make provision about town and country planning; to make provision for a scheme, administered by Natural England, for a nature restoration levy payable by developers; to make provision about development corporations; to make provision about the compulsory purchase of land; to make provision about environmental outcomes reports; and for connected purposes."*[3]

**4.** Cwblhaodd y Bil ei daith trwy Dŷ'r Cyffredin ar 10 Mehefin 2025. Cynhaliwyd y darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 12 Mehefin 2025, a chynhaliwyd yr ail ddarlleniad ar 25 Mehefin 2025. Ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn, disgwyliwyd i'r Cyfnod Pwyllgor ddechrau ar 17 Gorffennaf 2025.

[1] Y Bil Cynllunio a Seilwaith, fel y'i cyflwynwyd (Bil 196) [Saesneg yn unig]
[2] Nodiadau Esboniadol y Bil, fel y'i cyflwynwyd [Saesneg yn unig]
[3] Y Bil Cynllunio a Seilwaith, fel y'i cyflwynwyd

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn ofynnol pan fydd Bil perthnasol sydd gerbron Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**6.** Ar 26 Mawrth 2025, gosododd Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (yr Ysgrifennydd Cabinet) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[4]

**7.** Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ar y Memorandwm (ein hadroddiad cyntaf) ar 28 Mai 2025.[5]

**8.** Mae paragraffau 8 i 11 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi'r darpariaethau yn y Bil roedd Llywodraeth Cymru, ar y pryd, yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**9.** Mae paragraffau 12 i 27 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y'i nodwyd yn y Memorandwm.

**10.** Mae ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys dau gasgliad a phedwar argymhelliad.

**11.** Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet i'n hadroddiad cyntaf ar 9 Gorffennaf 2025.[6]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

**12.** Ar 15 Mai 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[7]

---

[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, 26 Mawrth 2025
[5] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, Mai 2025
[6] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 9 Gorffennaf 2025
[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, Mai 2025

**13.** Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 2 (ein hail adroddiad) ar 18 Mehefin 2025.[8]

**14.** Mae paragraffau 13 i 21 o'n hail adroddiad yn darparu diweddariad ar ddarpariaethau'r Bil roedd Llywodraeth Cymru, ar y pryd, o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, ac yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru o ran y darpariaethau diwygiedig.

**15.** Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys dau gasgliad.

**16.** Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet i'n hail adroddiad ar 9 Gorffennaf 2025.[9]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru

**17.** Ar 17 Mehefin 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[10]

**18.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor) a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 26 Medi 2025.[11]

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**19.** Mae Memorandwm Rhif 3 yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil[12] gan Lywodraeth y DU ar 3 Mehefin 2025 yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

**20.** Ym mharagraff 8 o Femorandwm Rhif 3, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan bod ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi arwain at y gwelliannau sy'n destun Memorandwm Rhif 3.

---

[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, Mehefin 2025
[9] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 9 Gorffennaf 2025
[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, Mehefin 2025
[11] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, Mehefin 2025
[12] Bil 250 (fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus

**21.** Ym mharagraffau 9 i 24 o Femorandwm Rhif 3, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi manylion y gwelliannau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan bod angen cydsyniad ar gyfer:

- Gov 93 sy'n diwygio cymal 31 (cymal 28 gynt) (Procedure for certain orders and schemes);
- Gov 94 sy'n diwygio cymal 41 (cymal 38 gynt) (Deemed consent under marine licence);
- Gov 95 sy'n diwygio cymal 41, ac sy'n ganlyniadol i Gov 97;
- Gov 96 sy'n diwygio cymal 41, ac sy'n ganlyniadol i Gov 97;
- Gov 97 sy'n diwygio cymal 41, ac sy'n ganlyniadol i Gov 94;
- Gov 98 sy'n diwygio cymal 41, ac sy'n ganlyniadol i Gov 97.[13]

**22.** Ar Gov 93, ym Memorandwm Rhif 3 mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan bod y gwelliannau gwreiddiol i adran 326 o *Ddeddf Priffyrdd 1980* (fel y'u cynigiwyd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd) yn caniatáu i orchmynion adran 10 a chynlluniau adran 16 a 106(3) o dan Ddeddf 1980 gael eu diwygio a'u dirymu gan orchymyn neu gynllun dilynol.[14] Yn y Memorandwm, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet fod darpariaeth ar wahân sy'n ymdrin â'r materion hyn eisoes wedi'i chynnig yng Nghymru o dan adran 2 o'r Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru).[15] Ym Memorandwm Rhif 3, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan y canlynol:

> *"Mae gwelliant Gov 93 yn adolygu'r gwelliant gwreiddiol i sicrhau bod y sefyllfa yng Nghymru yn cael ei chadw ac yn benodol na fydd Gwelliant Gov 93 yn effeithio ar y gwelliannau a gynigir yn y Bil Cymreig ar wahân."*[16]

**23.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn mynd ymlaen i ddatgan y canlynol:

> *"Mae angen cynnwys y darpariaethau ar gyfer Cymru i helpu i fynd i'r afael â mater a nodwyd yn ystod proses y Bil. Yn y bôn, drwy ddileu'r gofyniad bod gorchmynion adran 10 a chynlluniau adran 16/106(3) yn cael eu gwneud drwy Offeryn*

[13] Memorandwm Rhif 3, paragraff 9
[14] Memorandwm Rhif 3, paragraff 12
[15] Y Memorandwm, paragraffau 19 a 66
[16] Memorandwm Rhif 3, paragraff 12

*Statudol, collodd Gweinidogion Cymru y gallu i'w diwygio a'u dirymu. Drwy ddiwygio adran 326, mae’r mater hwn wedi'i gywiro, ac mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r gallu i wneud hynny.”*[17]

**24.** Ar Gov 94, ym Memorandwm Rhif 3 mae’r Ysgrifennydd Cabinet yn cynnig nodyn atgoffa o bryderon Llywodraeth Cymru ynglŷn â geiriad is-adran newydd 19A(3) i *Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992* a fewnosodir gan gymal 41 o’r Bil (cymal 38 gynt). Mae’r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi bod geiriad is-adran (3) yn creu ansicrwydd ynghylch y cais arfaethedig yn y môr a sut roedd hynny'n rhyngweithio â swyddogaethau Gweinidogion Cymru o roi trwyddedau morol.[18] Ym Memorandwm Rhif 3, mae’r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan y canlynol:

> *“Mae gwelliant Gov 94 yn hepgor y testun yng nghymal 41 o'i ddechrau hyd at ddiwedd llinell 19 ar dudalen 55 o'r Bil (fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod y Pwyllgor Cyhoeddus) ac yn mewnosod testun newydd yn ei le. R[h]oddir drafft newydd yn lle is-adrannau (1) i (4) o adran 19A a chyflwynir is-adran (4A) newydd.*
>
> *Mae effaith Gwelliant Gov 94 yn ailweithio cymal 41 a'r ddarpariaeth ar gyfer trwyddedau morol tybiedig mewn Gorchmynion TWA fel na chaiff Gweinidogion Cymru awdurdodi ond gweithgaredd y maent yn gyfrifol amdano o dan y ddeddfwriaeth trwyddedu morol (gweler Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Gwna'r un peth mewn perthynas â'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r gwelliannau i'r adran 19A newydd yn esbonio mai cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu priodol, yw tybio trwydded forol yn nyfroedd môr mawr Cymru.”*[19]

**25.** Ym Memorandwm Rhif 3, mae’r Ysgrifennydd Cabinet yn ddiweddarach yn ychwanegu’r canlynol:

> *“Yn yr LCM a osodwyd ar 26 Mawrth, nodais, er fy mod yn cefnogi'r ddarpariaeth i roi trwydded forol o dan gymal 38 (cymal 41 bellach), ceisiais sicrwydd gan Lywodraeth y DU nad oedd unrhyw ganlyniad anfwriadol yn rhanbarth y môr mawr.*

[17] Memorandwm Rhif 3, paragraff 28
[18] Memorandwm Rhif 3, paragraff 17
[19] Memorandwm Rhif 3, paragraffau 18 a 19

> *Mae'r gwelliant hwn yn rhoi eglurder ynghylch ar gyfer ble yn ddaearyddol y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru roi trwydded forol dybiedig, ac mae'r gwelliant yn mynd i'r afael â'm pryderon. Felly, rwy'n cefnogi'r gwelliant."*[20]

**26.** Ym mharagraffau 21 i 24 o Femorandwm Rhif 3, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn esbonio sut y mae Gov 95 i Gov 98 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Bil o ganlyniad i'r newidiadau o ran sylwedd a wneir gan Gov 93 a Gov 94. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet hefyd yn cadarnhau ei bod yn cefnogi'r diwygiadau hyn.[21]

**27.** O ran barn Llywodraeth y DU am yr angen am gydsyniad, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan ym Memorandwm Rhif 2 bod Mathew Pennycook AS, Gweinidog dros Dai a Chynllunio Llywodraeth y DU, wedi ysgrifennu ati ar 3 Mehefin 2025, yn datgan bod Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Gov 93 a Gov 94.[22] Er ei bod yn cytuno â'r dadansoddiad hwn, ym Memorandwm Rhif 3 mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan ei bod wedi ysgrifennu at y Gweinidog Gwladol dros Dai a Chynllunio yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru bod Gov 95 i 98 hefyd yn ddiwygiadau y mae angen cydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd ar eu cyfer.[23]

**28.** Dyma gasgliad yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn o fewn y Bil DU hwn. Mae'r gwelliannau technegol hyn yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd o'r blaen i sicrhau bod y pwerau'n gweithio i Gymru."*[24]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**29.** Gwnaethom ystyried Memorandwm Rhif 3 yn ein cyfarfod ar 7 Gorffennaf 2025.[25]

**30.** Gwnaethom ystyried ein hadroddiad a chytuno arno yn ystod ein cyfarfod ar 14 Gorffennaf 2025.[26]

---

[20] Memorandwm Rhif 3, paragraff 29
[21] Memorandwm Rhif 3, paragraff 30
[22] Memorandwm Rhif 3, paragraff 25
[23] Memorandwm Rhif 3, paragraffau 26 a 27
[24] Memorandwm Rhif 3, paragraff 32
[25] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 7 Gorffennaf 2025
[26] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Gorffennaf 2025

## Ein barn ni

### Cydsyniad deddfwriaethol

**31.** Rydym yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru ynghylch y diwygiadau i'r darpariaethau o fewn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodwyd ym Memorandwm Rhif 3.

**32.** Nodwn hefyd safbwynt Llywodraeth y DU o ran cydsyniad.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd ym Memorandwm Rhif 3, fod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y diwygiadau a wneir i'r Bil yn unol â Rheol Sefydlog 29.

### Materion sy'n peri pryder a godwyd yn ein hadroddiad cyntaf a'n hail adroddiad.

**33.** Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys pedwar argymhelliad yn ymwneud â gwaith rhynglywodraethol ar y Bil (argymhellion 1 a 2), pwerau dirprwyedig yn y Bil (argymhelliad 3), a rhyngweithio'r Bil â chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cydgrynhoi cyfraith gynllunio yng Nghymru (argymhelliad 4).

**34.** Fel y nodwn uchod, ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet i'n hadroddiad cyntaf a'n hail adroddiad ar 9 Gorffennaf 2025.

**35.** Wrth ymateb i'n hargymhellion yn ymwneud â gwaith rhynglywodraethol (argymhellion 1 a 2), nodwn ddatganiadau'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi'r canlynol:

- dechreuodd ymgysylltu rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y cynigion ar gyfer y Bil yr haf diwethaf[27];
- dechreuodd trafodaethau ffurfiol ar gynnwys y Bil ym mis Tachwedd 2024, pan rannwyd drafftiau cychwynnol o'r Bil[28];

[27] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 9 Gorffennaf 2025, ymateb i argymhelliad 1
[28] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 9 Gorffennaf 2025, ymateb i argymhelliad 1

- daeth yr Ysgrifennydd Cabinet yn ymwybodol o'r materion gyda chymalau 24 a 38 (cymalau 28 a 42 bellach) ym mis Rhagfyr 2024, a chyda chymal 28 (cymal 32 bellach) ym mis Chwefror eleni[29];

- mae'r ymgysylltu rhynglywodraethol wedi galluogi swyddogion Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar ddrafftio'r Bil cyn ei gyflwyno, gan gynnwys newidiadau i sicrhau na fyddai effeithiau andwyol ar bwerau cydsynio seilwaith[30];

- ni chynhaliwyd dadansoddiad ffurfiol yn Llywodraeth Cymru ac ni nodwyd y materion a godwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol nes i'r Bil terfynol gael ei gyflwyno i Senedd y DU[31];

- cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet a'i chydweithwyr y byddai ymgysylltu rhynglywodraethol rhwng swyddogion yn parhau, gan arwain at ddiwygiadau i'r Bil yn y Cyfnod Adrodd (Gov 93 i Gov 98) sy'n sicrhau bod cymalau 32 (cymal 28 adeg ei gyflwyno) a chymal 42 (cymal 38 adeg ei gyflwyno) bellach yn gweithio i Gymru[32];

- mae gwaith rhynglywodraethol yn parhau ar gymal 28 (cymal 24 adeg ei gyflwyno) i sicrhau ei fod yn gyson â'r prosesau presennol yng Nghymru[33].

**Casgliad 2.** O ystyried y misoedd o ymgysylltu rhwng y ddwy lywodraeth cyn cyflwyno'r Bil, mae'n siomedig y cyflwynwyd y Bil i Senedd y DU yn cynnwys darpariaethau sy'n peri pryder i Lywodraeth Cymru

**36.** Roedd argymhelliad 3 yn ein hadroddiad cyntaf yn ceisio eglurder gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pwerau dirprwyedig yn y Bil.

**37.** Nodwn o'i hymateb i'n hadroddiad cyntaf fod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cytuno â'r dadansoddiad a nodwyd ym mharagraffau 40 i 43 o'n hadroddiad cyntaf o ran y pwerau a ddirprwyir i Weinidogion Cymru yn y Bil, yn ddarostyngedig i ychwanegu pŵer at y rhestr yng nghymal 106 (cymal 92 adeg ei

[29] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 9 Gorffennaf 2025, ymateb i argymhelliad 1
[30] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 9 Gorffennaf 2025, ymateb i argymhelliad 2
[31] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 9 Gorffennaf 2025, ymateb i argymhelliad 2
[32] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 9 Gorffennaf 2025, ymateb i argymhelliad 2
[33] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 9 Gorffennaf 2025, ymateb i argymhelliad 2

gyflwyno) i benodi (ac i ddirymu'r penodiad hwnnw) Arolygydd i gadarnhau penderfyniadau ar Orchmynion Prynu Gorfodol a wneir o dan *Ddeddf Trefi Newydd 1981* neu awdurdodau caffael pan nad oes gwrthwynebiadau.[34]

**38.** Rydym hefyd yn nodi cadarnhad yr Ysgrifennydd Cabinet bod y Bil yn dirprwyo'r pwerau a ganlyn i'r Ysgrifennydd Gwladol weithredu mewn meysydd datganoledig:

- Pŵer yng nghymal 4(4) o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymal 7(2 bellach)) sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddyroddi canllawiau yn ymwneud ag adroddiadau effaith lleol y mae rhaid iddynt gael eu hystyried gan awdurdod lleol (pan fo'r datblygiad yng Nghymru).
- Pŵer yng nghymal 4(5) o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymal 7(3 bellach)) sy'n rhoi pŵer pellach i'r Ysgrifennydd Gwladol ddyroddi canllawiau yn ymwneud â sylwadau gan awdurdodau cyhoeddus.
- Pŵer yng nghymal 5(7) sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddyroddi canllawiau i ymgeiswyr sy'n nodi arfer gorau ar gyfer camau cyn ymgeisio[35];
- Pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 34 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymal 38 bellach) sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i osod rheolau ynghylch dyddiadau cau ar gyfer penderfyniadau. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan bod hyn oherwydd nad yw'r pwerau gwneud rheolau a rheoliadau a roddir gan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru ac, fel y cyfryw, mae'n briodol rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr achlysur hwn ond gyda rôl gydsynio i Weinidogion Cymru.
- Pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 41 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymal 45 bellach) sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio Deddf Seneddol neu Ddeddf neu Fesur gan y Senedd (dim ond diwygiadau sy'n ganlyniadol i gymalau 34 i 44 o'r Bil y caiff rheoliadau o'r fath eu gwneud).[36]

[34] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 9 Gorffennaf 2025, ymateb i argymhelliad 3
[35] Gwelliant NC45 y Llywodraeth, a gyflwynwyd ar gyfer cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin [Saesneg yn unig]
[36] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 9 Gorffennaf 2025, ymateb i argymhelliad 3

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau a ofynnodd Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU gynnwys darpariaeth yn y Bil a fyddai'n trosglwyddo i Weinidogion Cymru y pwerau gwneud rheolau a rheoliadau a roddir gan *Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992* i alluogi'r pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 34 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymal 38 bellach) i gael ei ddirprwyo i Weinidogion Cymru weithredu mewn meysydd datganoledig.

**39.** Gofynnodd ein hargymhelliad terfynol yn ein hadroddiad cyntaf i'r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau a oes gan y Bil oblygiadau i gynigion ac amserlenni Llywodraeth Cymru i gydgrynhoi'r gyfraith gynllunio bresennol fel y mae'n gymwys yng Nghymru. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol wrthym:

> *"Mae'r Bil yn diwygio amryw o Ddeddfau Senedd y DU. Nid yw'r Deddfau hynny yn rhai a fydd yn cael eu hailddatgan fel rhan o'r ymarfer cydgrynhoi cynllunio, felly ni fydd y gwelliannau a wneir gan y Bil yn effeithio ar gynnwys y Bil Cynllunio (Cymru).*
>
> *Mewn nifer fach o achosion, bydd angen i'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) a'r Bil wneud diwygiadau canlyniadol i'r un darpariaethau o Ddeddf arall. Pan fo hynny'n wir, mae'r Llywodraeth yn paratoi'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) i ystyried y gwelliannau sydd i'w gwneud gan y Bil. Bydd unrhyw ddiwygiadau pellach i'r Bil yn cael eu hadolygu a gellid ymdrin â hwy yn y cam Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ar gyfer y Bil Cynllunio (Cymru), os oes angen. Nid wyf yn rhagweld bod problem o ran amseroedd y Biliau hyn ac mae fy swyddogion yn parhau i drafod â swyddogion y DU ar yr amserlenni ar gyfer y Bil."*

**40.** Disgwylir cyflwyno'r Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) i'r Senedd ym mis Medi. Ein pwyllgor ni fydd y pwyllgor cyfrifol ar gyfer craffu ar y Biliau ac rydym yn ymwybodol y bydd angen i Gyfnod Ystyraeth Fanwl y Pwyllgor y cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet ato ddigwydd ym mis Ionawr 2026.

**Argymhelliad 2.** O ystyried nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet yn rheoli hynt y Bil drwy Senedd y DU, o ran yr amserlenni ar gyfer y cyfnodau sy'n weddill a thestun terfynol y Bil y gall Senedd y DU ei basio, credwn y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu eglurder ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymdrin â sefyllfa lle nad yw testun terfynol y Bil yn cael ei gymeradwyo gan Senedd y DU erbyn i

waith cynllunio'r Biliau Cydgrynhoi gyrraedd Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor yn y Senedd.

**41.** Yn ein hail adroddiad, nodwyd bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn aros am wybodaeth gan Lywodraeth y DU am yr effeithiau ymarferol ar gyrff cyhoeddus Cymru a'r cyhoedd ei hun cyn gwneud argymhelliad ar gydsyniad mewn perthynas â dau ddiwygiad a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin; Gov NC44 a Gov NC45 oedd y rhain. Nodwn nad yw Memorandwm Rhif 3 yn darparu diweddariad ar y materion hyn.